

# amser beibl

## Gwersi o'r Beibl – Safon 3

Cofiwch roi eich enw a'ch cyfeiriad yma.

Oedran \_\_\_\_\_ Dyddiad geni \_\_\_\_\_

Enw \_\_\_\_\_

Cyfeiriad \_\_\_\_\_

Enw Arweinydd y Dosbarth \_\_\_\_\_



### Gwersi Beiblaidd ar Weddi

Cofiwch mai un llythyren yw ch, dd, ff, ng, ll, ph, rh, th



DARLLENWCH  
Salm 5: 1-8



ADNOD  
ALLWEDDOL  
Salm 5: 2

### Gwers 1 Beth yw gweddi?

Ydych chi wedi cwrdd â rhywun pwysig iawn erioed? Weithiau, os yw hyn yn digwydd, dydi pobl ddim yn gwybod beth i'w ddweud! Pan fyddwn ni'n gweddio, rydyn ni'n siarad â Duw – y person pwysicaf oll. Weithiau, dydyn ni ddim yn gwybod beth i'w ddweud.

Y Brenin Dafydd ysgrifennodd y geiriau yn y Darlleniad o'r Beibl a doedd gweddi ddim yn dod yn hawdd iddo ef bob amser. Mae'r set hon o wersi'n trafod gweddi a gobeithio y byddan nhw'n eich helpu chi i ddeall mwy am siarad â Duw.



#### C Gweddi sydd yn y Darlleniad o'r Beibl. Pa dri enw neu deitl a ddefnyddiodd Dafydd am yr un yr oedd yn gweddio arno?



1
2
3

3

Pan fyddwn ni'n gweddio, mae'n rhaid i ni gofio ein bod yn siarad â rhywun arbennig iawn. Er bod Duw mor arbennig, mae'n dal yn awyddus i ni siarad ag ef. Ond weithiau, dydi e ddim fel pe bai'n ein hateb.

#### C Darllenwch adnodau 4 a 5 ac ysgrifennu YN EICH GEIRIAU EICH HUNAN beth nad yw Duw yn ei hoffi.


Mae hyn yn dangos nad yw Duw yn ateb ein gweddiâu weithiau am ein bod ni wedi gwneud rhywbeth o'i le.

2

Ond mae'r Darlleniad o'r Beibl yn dweud hefyd bod Duw yn ein caru. (adnod 7)

**Pan na fydd Duw yn ein cosbi fel yr ydyn ni'n ei haeddu, ond yn dangos cariad tuag atom ni, mae'n dangos 'trugaredd'**

**C Beth roedd Dafydd yn gallu'i wneud oherwydd cariad Duw?** (adn. 7)

1

**C Rhowch ✓ neu X i ddangos a yw'r brawddegau hyn yn wir ai peidio:-**

Roedd Dafydd yn gweddïo yn y bore. ....

Roedd Dafydd yn disgwyl i Dduw ateb ei weddïau. ....

Mae Duw yn hoffi drygioni. ....

Dydi pobl ddrwg a thrahaus ddim yn gallu sefyll o flaen Duw. ....

4


**C Ysgrifennwch yr Adnod Allweddol sy'n dweud ar bwy yr oedd Dafydd yn gweddïo.**

2

## CROESAIR

Defnyddiwch y cliwiau isod i wneud y Croesair.



### Ar Draws

1. Dydi Duw ddim yn hoffi hwn. (a. 4)

4. Roedd y man lle'r oedd Dafydd yn addoli yn

lle ..... (a. 7)

7. Gofynnodd Dafydd i Dduw wrando ar ei ..... (a. 1)

### I Lawr

1. Roedd Dafydd yn dod yma i addoli. Y ..... (a. 7)

2. Mae Dafydd yn sôn am y bobl hyn yn adnod 8.

3. Dyma mae Duw yn ei wneud i bobl sy'n dweud celwydd. (a. 6)

5. Gofynnodd Dafydd i'r Arglwydd ei ..... (a. 8)

6. Weithiau, roedd y Deml yn cael ei galw yn "\_\_\_ Duw". (a. 7)

8

Felly, gweddïo yw siarad â Duw Hollalluog. Mae arno eisiau i ni siarad ag ef! Beth am weddïo arno nawr a gofyn iddo'ch helpu i ddeall y gwersi hyn?



DARLLENWCH  
Luc 18: 9 -14



ADNOD  
ALLWEDDOL  
Iago 4: 6

## Gwers 2 Ydi Duw'n clywed ein gweddïau ni?

Mae rhai pobl wrth eu bodd yn siarad amdany'n nhw'u hunain. Maen nhw'n hoffi dweud wrth bobl eraill beth sydd ganddyn nhw a beth maen nhw'n ei wneud. Dyma un o storïau Iesu. Mae'n sôn am ddau ddyn. Roedd un ohonyn nhw'n perthyn i ddosbarth caeth a chrefyddol iawn o Iddewon, sef y Phariseaid. Roedd y llall yn gasglwr trethi. Doedd neb yn hoffi'r casglwyr trethi am eu bod nhw'n gweithio i'r Rhufeiniaid.

**C** Darllenwch adnod 9 ac ysgrifennu **YN EICH GEIRIAU EICH HUNAN** wrth bwy ddywedodd Iesu'r stori neu'r ddameg hon.


  
  


**C** Pa ddyn oedd yn meddwl ei fod yn dda?

**C** Pa ddyn oedd yn gwybod ei fod wedi gwneud pethau drwg?



**C** I ble'r aethon nhw i weddio?



Yn nyddiau Iesu, roedd llawer o bobl yn mynd i'r fan honno i weddio. Heddiw, mae llawer o bobl yn mynd i'r capel neu'r eglwys ond mae'n bwysig gwybod y cawn ni weddio ar Dduw UNRHYW LE ar UNRHYW BRYD!

**C** Pa dri pheth 'da' ddywedodd y Pharisead amdano'i hunan?


Doedd dim bai ar y Pharisead am wneud y pethau hynny, ond roedd bai arno am geisio dweud wrth Dduw pa mor 'dda' oedd e!

3

1

1

1


3

**C** I gael gwybod y ffordd iawn i weddio ar Dduw, ysgrifennwch yr Adnod Allweddol.


2

Roedd gweddi'r casglwr trethi yn fyr ac yn onest. Roedd yn gwybod ei fod wedi gwneud llawer o bethau na ddylai. Roedd yn ddrwg iawn ganddo ac roedd am i Dduw faddau iddo.

**CROESAIR.**



**I Lawr**

1. Pwy adroddodd y stori hon?
2. Beth oedd y ddau ddyn yn ei wneud yn y Deml?
5. Enw ar y math yma o stori.

**Ar Draws**

3. Doedd y casglwr trethi ddim hyd yn oed yn edrych i fyni tua'r \_\_\_\_.
4. Galwodd y casglwr trethi ei hunan yn hyn: \_\_\_\_\_.
6. Enw'r adeilad yr aethon nhw iddo: Y \_\_\_\_.

6

Ar ôl gweddio, aeth y ddau ddyn adref. Ond dywedodd Iesu mai dim ond un ohonyn nhw oedd â pherthynas iawn â Duw (wedi'i gyfiawnhau). Mae hyn yn golygu ei fod wedi cyffesu ei bechodau ac wedi cael maddeuant. Aeth adref gan wybod bod pethau'n iawn rhyngddo fe a Duw.

**C** Pa ddyn aeth adref â pherthynas iawn rhyngddo a Duw

--

1

**C** Darllenwch adnod 14 a thynnu llinell o'r bocsys i'r dyn y mae'n sôn amdano.



**Y dyn gwylaidd**

Bydd Duw yn ei ddyrchafu (ei anrhydeddu).

Bydd Duw yn ei ddarostwng (yn torri ei grib).



**Y dyn balch**

2

Mae Duw'n gwrando ar weddiâu gwylaidd, onest. Nid yw'n ateb gweddiâu pobl sy'n meddwl eu bod yn bwysig. Gweddiwch a gofyn i Dduw faddau i chi am bechu. Yna diolchwch iddo am anfon Iesu i'r byd i farw drosoch. Pan wnewch hynny, bydd pethau'n iawn rhyngoch chi a Duw.


DARLLENWCH  
Mathew 6: 5-15ADNOD  
ALLWEDDOL  
Mathew 6: 8

### Gwers 3 Sut y dylem ni weddio?

Mae'r rhan fwyaf o bobl wedi gweddio rywbryd yn eu bywyd. Efallai pan oedd perthynas yn sâl iawn neu pan oedd angen rhywbeth arnynt.

Fodd bynnag, mae Duw yn dymuno ein gweld yn gweddio yn rheolaidd, nid dim ond pan fydd rhywbeth yn mynd o'i le. Dangosodd Iesu i'w ddisgyblion sut y dylent weddio'n rheolaidd.

Yn nyddiau Iesu, roedd rhai pobl yn arfer sefyll ar gorneli strydoedd yn gweddio am amser hir, ac yn defnyddio geiriau mawr, fel y byddai pawb yn eu gweld a'u clywed.



#### C Tanlinellwch y geiriau cywir yn y brawddegau isod i weld beth oedd gan Iesu i'w ddweud am weddi:-

Dywedodd Iesu y dylem weddio (YN GYHOEDDUS) (YN BREIFAT neu YN Y DIRGEL).

Yna, bydd ein Tad, sydd yn y dirgel, yn ein (GWOBROWYO) (COSBI).

2

#### C Ysgrifennwch yr Adnod Allweddol sy'n ein hatgoffa bod ein Tad yn gwybod am beth rydyn ni'n bwriadu gweddio.


2

N	T	A	D	T	C
A	E	CH	E	L	U
I	Y	F	W	E	R
E	R	W	O	D	U
T	N	A	H	E	A
B	A	R	A	RH	DD
TH	S	P	G	D	A
M	FF	L	A	P	M

#### Pos Geiriau

Rhowch gylch o gwmpas y geiriau isod yn y Chwilair. Maen nhw'n rhedeg yn ôl a blaen, i fyny ac i lawr, neu ar hytraws.


NEFOEDD  
TAD  
TEYRNAS  
BARA  
MADDAU  
PRAWF

Mae'r geiriau hyn neu eiriau tebyg i'w cael yn y weddi a ddysgodd Iesu i'w ddisgyblion.

6

Nid geiriau i'w hailadrodd yn unig yw Gweddi'r Arglwydd, ond mae lesu'n dymuno ein gweld yn ei defnyddio fel patrwm wrth i ni weddio.

**C Edrychwch ar y weddi yn adnodau 9-13 a rhoi'r elfennau isod yn y drefn gywir wrth roi'r rhifau o 1 i 5 yn y blychau**



Gofyn am faddeuant.

Galw ar Dduw wrth ei enw a'i addoli.

Maddau i eraill.

Help i wrthod tentasiwn.

Gofyn am fwyd bob dydd.

5

**C Beth yw dau air cyntaf y weddi, yn adnod 9?**

1

Rhaid i ni ddeall hyn: Cyn y gallwn siarad â Duw fel ein Tad go iawn, mae'n rhaid bod ein pechodau wedi cael eu maddau.

Ydi Duw yn Dad i chi? Ydych chi'n aelod o'i deulu ef? Dim ond pan fyddwn yn gofyn i lesu faddau ein pechodau a bod yn Arglwydd ac yn Waredwr i ni y mae hyn yn digwydd.

Mae sawl gwahanol fath o weddiau.

**C Rhowch y llythrennau yn y drefn gywir i gael gweld tri gwahanol fath o weddi.**

1. Gweddiâu sy'n dweud (lodich) \_\_\_\_\_.

2. Gweddiâu sy'n (oddali) \_\_\_\_\_.


3. Gweddiâu sy'n (fygon) \_\_\_ i Dduw am beth y mae arnom ei angen.



3

Pan fyddwn yn gofyn i lesu Grist fod yn Arglwydd ac yn Waredwr i ni, mae Duw yn maddau i ni. Felly, beth ddylen ni ei wneud i bobl sydd wedi gwneud rhywbeth yn ein herbyn ni?

**C Lliwiwch bob siâp sy'n cynnwys smotyn i ddangos beth y mae Duw'n disgwyl i ni ei wneud.**



1

Yn ôl lesu, os ydyn ni'n gweddio, mae'n rhaid i ni fod yn barod i roi ein gweddiâu ar waith.



DARLLENWCH  
I Samuel 1:1-20

## Gwers 4 Ydi Duw'n ateb gweddiau?

Dydi Duw ddim bob amser yn ateb ein gweddiau yn y ffordd yr ydyn ni'n dymuno. Weithiau, dydi Duw ddim yn ateb ein gweddiau mor sydyn ag yr ydyn ni'n dymuno. Ond atebion Duw a'i gynlluniau ef sydd orau bob amser!

Yn y Darlleniad o'r Beibl, fe welwn ni nad oedd plant gan Hanna. Roedd hyn yn ei gwneud yn drist iawn. Doedd aelodau eraill y teulu ddim yn deall ei theimladau hi.

### C Beth oedd Peninna'n ei wneud i Hanna? (adnod 6)

1



ADNOD  
ALLWEDDOL  
I Samuel 1:20

### C Rhowch gylch o gwmpas y llun sy'n dweud orau am faint o amser y bu'n rhaid i Hanna ddiodeff Peninna'n bod yn gas wrthi.



Ychydig ddyddiau



Ychydig oriau



Blynyddoedd

1

### C Beth ddywedodd Elcana wrth Hanna gyntaf? (adnod 8)

1

Roedd Hanna'n methu bwyta am ei bod mor drist. Does dim rhaid i ni aros nes bod pethau'n mynd mor ddrwg â hyn cyn i ni weddio ar Dduw. Bydd Duw'n gwrando ar ein gweddiau unrhyw bryd.

### C Rhowch y geiriau cywir o'r rhestr yn rhan nesaf y stori.

**GWEDDÏO LLEFAIN ADDEWID MAB**

Bu Hanna'n \_\_\_\_\_ ac yn \_\_\_\_\_ ar yr Arglwydd.  
Gwnaeth \_\_\_\_\_ i Dduw y byddai'n rhoi ei \_\_\_\_\_ i wasanaethu'r  
Arglwydd trwy gydol ei fywyd.

4

Pan fyddwn ni'n gofyn am bethau mewn gweddi, mae'n rhaid i ni fod yn barod i adael i Dduw ateb ein gweddi yn ei ffordd ef, nid gweddio er mwyn cael ein ffordd ein hunain.

### C Rhowch ✓ neu X i ddangos a yw'r brawddegau hyn yn wir ai peidio:-

Gweddiodd Hanna'n uchel. ....

Roedd Eli, yr offeiriad, yn meddwl bod Hanna wedi meddwi. ....


Dywedodd Eli wrth Hanna, "Dos mewn heddwch". ....

3



**C Atebwch y cwestiynau isod trwy roi'r atebion yn y Grid Geiriau.**

- 1) Y man lle'r oedden nhw'n addoli.
- 2) Y wraig a oedd yn gweddio.
- 3) Roedd yr offeiriad yn meddwl ei bod wedi \_\_\_\_\_.
- 4) Meddai Hanna, "Gwraig \_\_\_\_\_ wyf fi."
- 5) Dywedodd yr offeiriad, "Dos mewn \_\_\_\_\_."
- 6) Enw'r offeiriad.



6

Dyna wahaniaeth a welwyd yn Hanna ar ôl iddi weddio! Er nad oedd ei gweddi wedi'i hateb eto, dechreuodd fwyta a doedd hi ddim yn drist bellach. Roedd Hanna'n credu y byddai Duw yn ateb ei gweddi am fab. **Dyna beth yw gweddio mewn ffydd.**

**C Ysgrifennwch ran olaf yr Adnod Allweddol i gael gwybod pam y galwodd Hanna ei mab yn Samuel.**

2

Mae'r Beibl yn dweud wrthym fod Duw'n ateb gweddiau pan fyddwn yn gofyn mewn ffydd. Mae hyn yn golygu trystio Duw i'w hateb yn y ffordd mae'n wybod sydd orau.

**C Dewch i weld beth ddywedodd Iesu am weddi trwy ddatrys y Cod Geiriau.**

	1	2	3	4	5
A	i	gofynnwch	curwch	gewch	roddir
B	agorir	chi	ac	ceisiwch	fe

<b>A2</b>	<b>B3</b>	<b>B5</b>	<b>A5</b>	<b>A1</b>	<b>B2;</b>	<b>B4</b>	<b>B3</b>	<b>B5</b>
<b>A4;</b>	<b>A3</b>	<b>B3</b>	<b>B5</b>	<b>B1</b>	<b>A1</b>	<b>B2</b>		

(Er enghraifft, 'A2' yw 'gofynnwch'. Ysgrifennwch y geiriau yn y blwch isod.)

2

Cafodd gweddi Hanna ei hateb pan anwyd Samuel. Yn unol â'i haddewid, rhoddodd Hanna y bachgen i'r Arglwydd. Ond, ni wnaeth Duw anghofio Hanna wedyn. Rhoddodd bump o blant eraill iddi (1 Samuel 2: 21). Weithiau, mae Duw yn ateb ein gweddiau mewn ffydd rhyfeddol! Ydi Duw wedi ateb rhai o'ch gweddiau chi? Os ydyw, beth am ddiolch iddo nawr?

**cyfanswm**

Marciau  
(i'w nodi gan yr arweinydd)

---



---



---



---

Cyfanswm

Cyfanswm Llawn

Cyhoeddwyd yn wreiddiol yn Saesneg gan: © Bible Educational Services. P.O. Box 42, Penarth, CF64 3YD.  
Y gwersi ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim ar [www.biblelinkit.com](http://www.biblelinkit.com) neu ffoniwch 01202 873500 am fwy o wybodaeth. Rhif elusen 1096157

Cyhoeddir y gwersi Cymraeg gan © 2008 Pwyllgor Amserbeibl Cymru.  
Addasiadau Cymraeg gan Siân Roberts a Linda Lockley. Golygydd gan Siân Roberts. Cysodwyd gan Ynyr Roberts.  
Cyfres lawn o wersi dros dair blynedd i rai 4-15 oed ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim o [www.amserbeibl.org](http://www.amserbeibl.org)  
Am fanylion pellach neu i gyfrannu at y gwaith (rhoddion yn daladwy i 'Amserbeibl') cysylltwch ag:  
Aled Davies, Cyngor Ysgolion Sul, Ael y Bryn, Chwilog, Pwllheli, Gwynedd LL53 6SH ☎ 01766 819120